OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2014 Rhif 890 (Cy. 88)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

# Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2014

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu bod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ("CIPFA") a Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli ("CIMA") yn gyrff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy at ddibenion adran 19(9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 ("y Ddeddf").

O ganlyniad i hyn, bydd CIPFA a CIMA ill dau yn dod o fewn y diffiniad o "corff cyfrifyddu" yn adran 19(9) o'r Ddeddf. Mae adran 19(4) o'r Ddeddf yn darparu y caiff Swyddfa Archwilio Cymru wneud trefniadau gydag unrhyw gorff o'r fath i gydweithredu â'i gilydd a rhoi cymorth i'w gilydd neu wneud trefniadau i'r corff hwnnw ac Archwilydd Cyffredinol Cymru gydweithredu â'i gilydd, a rhoi cymorth i'w gilydd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r offeryn hwn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 890 (Cy. 88)

# ARCHWILIO CYHOEDDUS, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Ebrill 2014* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *2 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym* | *23 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 19(9) a 30 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (Corff Cyfrifwyr Ewropeaidd Cymeradwy) 2014 a daw i rym ar 23 Ebrill 2014.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Corff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy**

2.—(1) Mae pob un o'r cyrff a grybwyllir ym mharagraff (2) yn gyrff cyfrifwyr Ewropeaidd cymeradwy at ddibenion adran 19(9) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013.

(2) Dyma'r cyrff y cyfeirir atynt ym mharagraff (1)—

(a) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth; a

(b) Sefydliad Siartredig y Cyfrifwyr Rheoli.

(**1**) 2013 dccc 3.

*Jane Hutt*

Y Gweinidog Cyllid, un o Weinidogion Cymru

1 Ebrill 2014